OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 433

# Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2018

## RHAN 5

### Yr hawl i gael amser i ffwrdd

**Absenoldeb oherwydd profedigaeth**

**39.**—(1) Mae gan weithiwr amaethyddol hawl i gael absenoldeb oherwydd profedigaeth â thâl o dan amgylchiadau pan fo'r brofedigaeth yn ymwneud â pherson yng Nghategori A neu Gategori B.

(2) At ddibenion paragraff (1), personau yng Nghategori A yw—

(a) rhiant i'r gweithiwr amaethyddol;

(b) mab neu ferch i'r gweithiwr amaethyddol;

(c) priod neu bartner sifil y gweithiwr amaethyddol; neu

(d) rhywun y mae'r gweithiwr amaethyddol yn byw gydag ef fel gŵr a gwraig heb fod yn gyfreithiol briod neu rywun y mae'r gweithiwr amaethyddol yn byw gydag ef fel pe baent mewn partneriaeth sifil.

(3) At ddibenion paragraff (1), personau yng Nghategori B yw—

(a) brawd neu chwaer i'r gweithiwr amaethyddol;

(b) nain neu daid i'r gweithiwr amaethyddol; neu

(c) ŵyr neu wyres i'r gweithiwr amaethyddol.

(4) At ddibenion paragraff (1) mae absenoldeb oherwydd profedigaeth yn ychwanegol at unrhyw hawliau eraill i gael absenoldeb o dan y Gorchymyn hwn.